



HAF 2021

Canllawiau i Ymgeiswyr Preifat

17 Mai 2021 – Fersiwn 2.0

Canllawiau i Ymgeiswyr Preifat

1. Cefndir

Oherwydd y pandemig parhaus, mae arholiadau haf 2021 wedi'u canslo. Bydd ysgolion a cholegau'n cynhyrchu Graddau wedi'u Pennu gan Ganolfannau ar gyfer eu dysgwyr, ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, a Thystysgrif Her Sgiliau cymeradwy yng Nghymru.

2. Trefniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat

Rydych chi'n ymgeisydd preifat os nad ydych yn astudio mewn ysgol neu goleg ac nad ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer cymwysterau gan ysgol neu goleg. Dyma rai enghreifftiau:

- Dysgwyr o oedran ysgol sydd yn cael eu haddysgu gartref gan eu rhieni neu ofalwyr, neu diwtoriaid preifat
- Oedolion sydd yn astudio'n annibynnol
- Dysgwyr sydd yn astudio gyda darparwr dysgu o bell nad yw'n cynnig opsiwn i gofrestru ar gyfer arholiadau

Efallai eich bod hefyd yn ymgeisydd preifat os ydych yn astudio yn yr ysgol neu'r coleg, ond eich bod hefyd yn astudio pwnc ychwanegol nad yw'n cael ei gynnig yn eich ysgol neu goleg, er enghraifft iaith fel Lladin neu Rwseg.

Yn dibynnu ar a ydych eisoes yn adnabod ysgol neu goleg sydd wedi cytuno i'ch cofrestru ar gyfer cymhwyster, mae dau lwybr posibl i chi eu dilyn os ydych yn ymgeisydd preifat. Mae'r llwybrau hyn yn berthnasol i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, a Thystysgrif Her Sgiliau cymeradwy ar gyfer Cymru yn unig a gynigir gan CBAC yn unig.

Mae trefniadau ar wahân ar waith ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio tuag at gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a gynigir gan gyrff dyfarnu eraill (gweler adran 7). Mae'r term 'canolfan' a ddefnyddir yn y canllawiau isod yn cyfeirio at ysgol, coleg neu sefydliad addysgol arall y mae dysgwyr yn mynychu ei safle at ddibenion addysgu ac asesu.

3. Llwybrau ar gyfer ymgeiswyr preifat yn haf 2021

Mae'r tabl isod yn dangos y ddau lwybr ar gyfer asesu ymgeiswyr preifat yn haf 2021.

Llwybr A – Llwybr lle mae'r ganolfan yn asesu

Os ydych yn gwybod am ysgol neu goleg sydd eisoes wedi cytuno i'ch cofrestru ar gyfer cymhwyster ac asesu'ch gwaith, gall hyn barhau yn ôl yr hyn a gynlluniwyd.

Llwybr B – Llwybr lle mae'r ganolfan yn hwyluso

Os nad ydych yn gwybod am ysgol neu goleg, byddwch yn gallu dod o hyd i un a fydd yn cofrestru ymgeiswyr preifat yn eich rhanbarth chi o Gymru ar [restr a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru](#). Byddwch yn gallu mynd at y canolfannau hyn yn uniongyrchol.

Cynhyrchir eich Gradd(au) a Bennir gan Ganolfan yn yr un modd ag ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol neu'r coleg.

Byddwch yn gallu gofyn i'r ganolfan adolygu graddau, os oes angen.

Byddwch yn mynd i safle'r ysgol neu'r coleg i gwblhau rhai o'r asesiadau gofynnol a chyflwyno portffolio o waith a allai gynnwys gwaith sydd eisoes wedi'i gwblhau.

Bydd arholwyr CBAC yn marcio eich gwaith, gan ddilyn yr un canllawiau ag a ddefnyddir gan ysgolion a cholegau, i gynhyrchu eich gradd.

Byddwch yn gallu gofyn am adolygiad o'ch graddau, os oes angen. Bydd CBAC yn cynnal yr adolygiad hwn.

Mae'r ddau lwybr hyn yn golygu y bydd gan bob ymgeisydd preifat fynediad i raddau cymwysterau cymeradwy ar gyfer Cymru yn unig yr haf hwn.

Er bod rhai gwahaniaethau rhwng y ddau dull hyn, maent yn cynrychioli tegwch i bob dysgwr.

4. Sut i gofrestru fel ymgeisydd

Os ydych eisoes wedi'ch cofrestru ar gyfer cymhwyster fel ymgeisydd preifat a bod eich canolfan wreiddiol wedi cadarnhau ei bod yn dal yn barod i barhau â'ch asesiad, yna gall hynny barhau yn ôl y bwriad. Ni ddylech newid canolfannau.

Os nad ydych wedi'ch cofrestru eto, yna gellir gwneud cofrestriad ar eich rhan gyda CBAC **hyd at 26 Ebrill 2021**. Ar ôl y dyddiad hwn, ni dderbynnir cofrestriadau os ydych yn dilyn llwybr B. Os ydych yn dilyn llwybr A, efallai y cewch eich derbyn yn ôl disgrisiwn y ganolfan, os oes digon o amser i gwblhau eich asesiadau. Bydd ffi mynediad hwyr am wneud hyn.

5. Crynodeb o'r hyn y bydd canolfannau sy'n cofrestru ymgeiswyr preifat yn ei wneud

Mae'r tabl isod yn esbonio'r hyn y bydd canolfannau yn ei wneud os byddant yn eich cofrestru chi fel ymgeisydd preifat ar gyfer y llwybr lle mae'r ganolfan yn asesu neu'r llwybr lle mae'r ganolfan yn hwyluso. Fe welwch fod rhai rhannau o'r broses yr un fath ar gyfer y ddau lwybr.

Llwybr A – Llwybr lle mae'r ganolfan yn asesu

Bydd canolfannau sydd eisoes wedi cytuno i gofrestru ymgeiswyr preifat sy'n hysbys iddynt yn:

Cytuno ar gofrestriadau ar gyfer cymwysterau cymeradwy.

Llwybr B – Llwybr lle mae'r ganolfan yn hwyluso

Bydd canolfannau ar y rhestr o ganolfannau sy'n barod i hwyluso ar gyfer ymgeiswyr preifat yn:

Derbyn ceisiadau am gofrestriadau ar gyfer cymwysterau cymeradwy.

Dweud wrthyhych sut y cewch eich asesu. Bydd hyn yr un fath ag ar gyfer dysgwyr sydd eisoes yn mynychu'r ysgol neu'r coleg. Trefnu eich asesiadau yn unol â manylion Fframweithiau a Chanllawiau Asesu Cymwysterau CBAC ar raddio.

Dweud wrthyhych sut y cewch eich asesu, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan CBAC. Bydd hyn yn cynnwys gofynion cyffredinol am yr asesiadau, cyflwyno eich portffolio gwaith a dilysu eich gwaith (dangos mai eich gwaith chi ydyw). Darparu ffurflen proffil asesu i chi, y bydd angen ichi ei dychwelyd i'r ganolfan, i'w rhannu â CBAC.

Cyflwyno cofrestrïadau i CBAC **erbyn 26 Ebrill 2021**.

Trefnu i chi dalu'r ffioedd mynediad.

Nodi a chadarnhau a oes gennych unrhyw hawl i drefniadau mynediad (hynny yw, a oes gennych hawl i unrhyw addasiadau rhesymol). Gallai hyn olygu bod angen asesu yn y ganolfan, cyn gwneud cais am drefniadau mynediad i CBAC. Efallai y bydd cymorth ar gael yn lleol hefyd drwy'r awdurdodau lleol. Gallai CBAC gadarnhau a oes gennych drefniant mynediad cymeradwy byw cyfredol, a natur y trefniant, gyda'ch caniatâd chi.

Trefnu pryd y byddwch yn ymweld â'r safle i gwblhau unrhyw asesiadau angenrheidiol ar y safle, a chyflwyno portffolio o waith a chysylltu â'ch tiwtor/darparwr addysg (eich rhiant/gofalwr, efallai) ynglŷn â'i ddilysrwydd. Gallai hyn fod unrhyw bryd hyd at 11 Mehefin 2021.

Gweinyddu/goruchwylio'r gwaith o gwblhau tasgau asesu ar y safle, gan sicrhau bod trefniadau mynediad ar waith, yn ôl yr angen.

Trefnu'r asesiad ar y safle fel ei fod yn cydymffurfio â chyngor cyfredol ar iechyd y cyhoedd.

Llwybr A – Llwybr lle mae'r ganolfan yn asesu

Rhoi dulliau gweithredu cyffredinol ar waith sy'n cyd-fynd â pholisi asesu'r ganolfan, fel pryd y bydd asesiadau'n cael eu cynnal. Mae rhai o'r rhain wedi'u cynnwys yn y camau uchod a bydd angen ystyried eich gwaith hefyd yn rhan o brosesau sicrhau ansawdd y ganolfan.

Cwblhau cofnod gwneud penderfyniadau ar eich rhan, gan gynnwys sail resymegol dros y penderfyniad ar eich gradd, gan ystyried ystyriaethau arbennig, os oes angen.

Bodloni gofynion y broses adolygu graddau a phroses apelio Cam 2, os byddwch yn gofyn am hynny. Rhoi gwybod i chi am ganlyniad unrhyw adolygiad o radd, a/neu apêl Cam 2, gan CBAC.

Llwybr B – Llwybr lle mae'r ganolfan yn hwyluso

Anfon eich asesiadau wedi'u cwblhau at CBAC. (Os nad ydych yn gallu sefyll yr asesiad(au) ar y diwrnod(au) y cytunwyd arno/arnynt, yna bydd angen trefnu amser arall.)

Os oes angen ystyried ystyriaethau arbennig ar eich cyfer, bydd angen i'r ganolfan roi gwybod i CBAC.

Os byddwch chi'n gofyn am adolygiad o'r radd, a/neu apêl Cam 2, bydd y ganolfan yn rhoi gwybod i CBAC am y cais hwn. Rhoi gwybod i chi am ganlyniad unrhyw adolygiad o radd, a/neu apêl Cam 2, gan CBAC.

Sylwer – Rhoddwyd gwybodaeth fanylach i ganolfannau am y prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer cofrestru ymgeiswyr preifat yn y [Canllawiau i ganolfannau sy'n cofrestru ymgeiswyr preifat](#).

6. Crynodeb o'r hyn y bydd CBAC ac eraill yn ei wneud i chi os ydych wedi cofrestru fel ymgeisydd preifat drwy'r llwybr lle mae'r ganolfan yn hwyluso

Llwybr lle mae'r ganolfan yn hwyluso yn unig Bydd CBAC yn:
Cyfleu gofynion asesu i chi, trwy'r ganolfan sy'n ei hwyluso i chi. Gall hyn olygu rhoi gwybod i chi am feysydd y fanyleb a gaiff eu hasesu.
Ystyried y wybodaeth a roddwch ar y ffurflen proffil asesu, er enghraifft a oes angen addasiadau rhesymol arnoch fel amser ychwanegol neu ddeunyddiau asesu mewn Braille neu mewn ffont mwy, neu os oes rhai rhannau o'r fanyleb nad ydych wedi gallu eu cwmpasu oherwydd aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig.
Rhoi gwybod i'r ganolfan sy'n hwyluso i chi am yr asesiadau y bydd eu hangen. Mae'r rhain yn debygol o fod yn gyn-bapurau wedi'u haddasu ar gyfer yr asesiadau ar y safle, yn ogystal â phortffolio o'ch gwaith.
Rhoi gwybod i'r ganolfan sy'n hwyluso i chi ynghylch cyflwyno tystiolaeth asesu i CBAC. Gallai hyn fod unrhyw bryd hyd at 11 Mehefin 2021.
Trefnu ar gyfer marcio'ch holl waith a chynhyrchu gradd.
Sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd priodol ar waith i gefnogi cywirdeb y dyfarniadau hynny o fewn y cymhwyster ac ar draws cymwysterau eraill.
Llunio cofnod gwneud penderfyniadau o ddyfarniad y radd a darparu hwn i'r ganolfan sy'n hwyluso i chi, i'w rannu â chi. Dylai hwn gynnwys sail resymegol dros y dyfarniad a wnaed.
Cynnal adolygiad o'r radd, os byddwch yn gofyn am hynny. Bydd hyn yn cael oruchwyllo gan rywun nad oedd yn ymwneud â'r penderfyniad gwreiddiol (nid yw hyn yn atal y sawl a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol rhag bod yn rhan o'r broses adolygu). ¹
Rhoi gwybod i'r ganolfan sy'n hwyluso i chi am ganlyniad yr adolygiad o radd.
Cwblhau eich gradd.
Cynnal apêl ar gyfer y radd, os byddwch yn gofyn am hynny. Bydd hyn yn cael ei wneud gan rywun na chynhyrchodd eich gradd ac na adolygodd eich gradd.
Rhoi gwybod i'r ganolfan sy'n hwyluso i chi am ganlyniad apêl, os gofynnwyd am un.

Bydd Cymwysterau Cymru, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn parhau i weithio gyda'i gilydd i gefnogi'r prosesau hyn, er mwyn sicrhau trefniadau addas ar gyfer ymgeiswyr preifat.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein [Canllawiau ar drefniadau amgen ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch sydd wedi'u cymeradwyo](#).

Ceir rhagor o fanylion am brosesau a gweithdrefnau canolfannau a CBAC yn ein [Canllawiau i ganolfannau sy'n cofrestru ymgeiswyr preifat](#).

¹ Mân ddiwygiad i'r wybodaeth a gyhoeddir yn fersiwn 1 i adlewyrchu'r prosesau apelio terfynol

7. Ymgeiswyr preifat yn ymgeisio am gymwysterau nas cymeradwywyd

Cynigir y cymwysterau hyn gan AQA, OCR, Pearson a CBAC Eduqas, ac mae Ofqual a'r Adran Addysg yn Lloegr wedi cytuno ar y dulliau i'w defnyddio. Mae'r Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) wedi cyhoeddi [Canllawiau Interim ar gyfer Canolfannau Ymgeiswyr Preifat](#) sydd eisiau cofrestru ar gyfer y cymwysterau hyn ar ei wefan, ynghyd â [rhestr o ganolfannau](#) a fydd yn cofrestru ymgeiswyr preifat. Mae'r rhan fwyaf o'r canolfannau hyn yn Lloegr. Efallai y bydd rhai canolfannau yng Nghymru hefyd yn barod i gofrestru ymgeiswyr preifat ar gyfer y cymwysterau hyn a dylech gysylltu â'ch canolfan(au) agosaf yn uniongyrchol am hyn.

Bydd ymgeiswyr preifat hefyd yn gallu gofyn i sefydliadau penodol, megis darparwyr dysgu o bell, eu cofrestru a chynnal y gwaith asesu angenrheidiol ar eu gwaith. Dim ond cyfnod cyfyngedig sydd ar ôl i'r sefydliadau hyn dderbyn cofrestriadau gan fod angen iddynt roi prosesau ar waith i'w galluogi i'ch asesu a chynhyrchu gradd. Enghraifft o sefydliad o'r fath yw [Tutors & Exams](#), sy'n gallu cofrestru ymgeiswyr preifat a'u hasesu mewn ffordd sy'n bodloni gofynion y corff dyfarnu perthnasol. Mae darparwyr dysgu o bell eraill hefyd yn y rhestr o ganolfannau ar wefan JCQ.

Bydd ymgeiswyr preifat yng Nghymru sy'n cymryd cymwysterau cyffredinol heb eu cymeradwyo yn gallu derbyn cefnogaeth trwy grant yr Adran Addysg yn Lloegr- ar yr amod nad oes canolfan yng Nghymru i'w cymryd ac nad ydyn nhw'n derbyn unrhyw gymorth ariannol arall tuag at eu cymwysterau. Mae mwy o wybodaeth am [ar gael yma](#).